CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Ymgynghoriad ar Adolygiad o Daliadau Gwasanaeth

Eich Canllaw

www.ccgwynedd.org 0300 123 8084

Mwy o wybodaeth am Daliadau Gwasanaeth a'r ymgynghoriad hwn

Mae eich Barn yn Bwysig

Mae eich barn ar yr ymgynghoriad hwn yn bwysig i ni. Cwblhewch yr holiadur hwn a'i dychwelyd i ni erbyn 29 Mehefin 2018.

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn gwahanu rhenti a thaliadau gwasanaeth. Rydym yn cynnig bod y taliadau gwasanaeth yn daladwy o Hydref 2018.

Byddwn yn cysylltu â chi eto yn yr Haf i adael i chi wybod beth mae'r newidiadau yn eu golygu i chi.

Beth yw tâl Gwasanaeth?

Tâl Gwasanaeth yw taliad a wneir tuag at gostau darparu a chynnal gwasanaethau i denantiaid sy'n fwy na'r hyn sy'n cael ei gynnwys yn y rhent arferol. Mae'n golygu'r hawl i ddefnyddio gwasanaeth yn hytrach na defnydd yn unig o'r gwasanaeth. Nid ydym yn gwneud elw o Dâl am Wasanaeth gan mai dim ond ad-ennill gwir gost o ddarparu'r gwasanaeth a wnawn, ynghyd â ffî gweinyddu.

Er enghraifft, costau darparu lifftiau mewn bloc o fflatiau, darparu staff ar safle, cynnal a chadw tir a glanhau cymunedol.

A fydd Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol o gymorth i mi dalu am y tâl gwasanaeth?

Bydd y rhan fwyaf o'r taliadau gwasanaeth hyn yn cael eu talu gan Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol os ydych yn gymwys i gael cymorth.

Mae gennym bobl yma yn barod i'ch helpu drwy'r newid hwn. Am gymorth pellach cysylltwch gyda ni ar **0300 123 8084.**

Mae'r tabl yn rhoi mwy o fanylion i chi:

Tâl Gwasanaeth	Yn gymwys i gael Budd-dal Tai / Credyd Cynhwysol?
Glanhau tu allan i ffenestri fflatiau anghenion cyffredin	Ydw, yn achos fflatiau sy'n uwch na'r llawr cyntaf
Glanhau tu allan i ffenestri fflatiau Tai Gwarchod	Ydi
Mân waith trwsio, cynnal a chadw tu allan a thu mewn i fannau cyffredin	Ydi
Cynnal a chadw tir mewn gerddi cymunedol, meysydd parcio a mannau agored	Ydi
Darparu, cynnal a chadw, a chyflenwi trydan i storfeydd sgwteri.	Na
Cyfleusterau golchi dillad cymunedol	Na
Cynnal a chadw rhannau mewnol sydd at ddefnydd cyffredinol (cynteddau, grisiau)	Ydi
Darparu golau y tu mewn a thu allan i fannau cyffredin a darparu golau argyfwng yn y mannau cyffredin. Nid yw hyn yn cynnwys goleuadau stryd a ddarperir gan y Cyngor	Ydi
Costau gwresogi mannau cyffredin y landlord	Ydi
Costau gwresogi fflatiau unigol y landlord e.e. system boeler cyffredin	Na
Glanhau tu mewn i fannau cyffredin a thu mewn i ffenestri mewn mannau cyffredin	Ydi
Addurno mannau cyffredin gan gynnwys cost deunyddiau	Ydi
Costau iechyd a diogelwch mannau cyffredin e.e. Canfod ac atal tân, profi offer trydanol, rheoli plâu	Ydi
Darparu, glanhau, cynnal a chadw neu drwsio lifftiau a rennir	Ydi
Darparu, cynnal a chadw neu drwsio Systemau Drws Mynediad	Ydi
Darparu, cynnal a chadw neu drwsio erial teledu, teledu cebl neu deledu lloeren	Ydi (teledu di-dâl)
Systemau cloch argyfwng 24*7	Na (O bosib gall grant Cefnogi Pobl dalu)
Darparu, cynnal a chadw a thrwsio camerâu cylch cyfyng	Ydi
Ffioedd carthffosiaeth / gwagio carthbwll	Ydi
Wardeiniaid safle / gofalwyr	Ydi
Wardeniaid Tai Gwarchod	Na (O bosib gall grant Cefnogi Pobl dalu)
Costau newid gosodiadau a ffitiadau mewn mannau cyffredin	Ydi

Sut ydym yn canfod beth yw eich tâl gwasanaeth am y flwyddyn?

Bob blwyddyn rydym yn asesu faint rydym yn ei wario ar ddarparu gwasanaethau i'ch eiddo. Mae hyn yn seiliedig ar wir gost y gwasanaethau a maint a nifer yr eiddo sy'n derbyn y gwasanaethau hynny. Byddwn ond yn codi tâl am wir gost y gwasanaeth, a'r Ffi Gweinyddu 10%.

Er enghraifft

Os mai cyfanswm tâl gwasanaeth am floc o fflatiau dwy lofft o'r un maint yw £60, byddwn fel arfer yn rhannu hyn gyda phedwar, felly byddai pob fflat yn talu £15 yr un. Yna byddwn yn ychwanegu ffi gweinyddu o 10%.

Ar gyfer prydleswyr, bydd y ffordd o rannu yn cael ei ddiffinio yn eu Prydles.

Faint y bydd rhaid i mi dalu?

Bydd y swm yr ydym yn ei godi yn dibynnu ar natur a chost y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu. Mae rhestr o'r gwasanaethau ychwanegol a chostau sy'n berthnasol i'ch cartref yn cael eu nodi yn y tabl isod:

Gwasanaethau Ychwanegol	Rydych yn talu ar hyn o bryd	Amcangyfrif o'r tâl wythnosol
[Gwasanaeth 1]	[Cost Bresennol]	[Cost newydd]
[Gwasanaeth 2]	[Cost Bresennol]	[Cost newydd]
Cynnal a Chadw Tir Cymunedol **	[Cost Bresennol]	[Cost newydd]
[Gwasanaeth 3]	[Cost Bresennol]	[Cost newydd]
Isgyfanswm	[Cost isgyfanswm cyfredol]	[Cost isgyfanswm newydd]
Ffi Gweinyddu 10%	[Ffioedd Gweinyddu Cyfredol]	[Ffi Gweinyddu newydd]
Byddwch yn talu	[Cyfanswm presennol]	[Cyfanswm newydd]

* Efallai na fydd angen i denantiaid blaenorol Cyngor Gwynedd a drosglwyddodd i Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar 12/04/10 dalu'r swm llawn a ddangosir. Mae hyn oherwydd ymrwymiad a wnaed yn y Ddogfen Gynnig "Eich Cartref Eich Dewis" na fyddai unrhyw daliadau gwasanaeth newydd yn cael eu cyflwyno am wasanaethau a dderbyniwyd cyn trosglwyddo os nad oedd tenant yn talu tâl gwasanaeth amdanynt i'r Cyngor.

** Bydd CCG yn gweithio gyda thenantiaid i gytuno ar yr hyn sy'n rhesymol i godi tâl am Gynnal a Chadw Tir yn y dyfodol

Sut byddaf yn talu'r Tâl Gwasanaeth?

Byddwch yn talu'r tâl gwasanaeth gyda'ch rhent.

Beth os nad wyf yn hapus gyda faint o Dâl Gwasanaeth y mae disgwyl i mi ei dalu yn y dyfodol?

Dim ond tâl rhesymol am wasanaeth y gall CCG ei godi a rhaid i'r gwasanaethau gyrraedd safon resymol. Os ydych o'r farn nad yw'r gwasanaethau yn cyrraedd safon resymol neu eich bod yn anfodlon am unrhyw reswm arall, mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod. Rydym yn awyddus iawn i glywed gennych ar sut y bydd y taliadau arfaethedig yn effeithio arnoch chi a sut y gallwn eich cynorthwyo gyda'r newidiadau.

Dogfen heb ei rheoli ar ôl ei hargraffu Côd: FPg16c/JW/0418 – Issue 0